

Diffyg cof ysbrydol

“Oherwydd os gwnewch hyn, ni lithrwch byth.” (adn. 10)

Beth am ddarllen 2 Pedr 1:8–11 ac yna myfyrio

Fe ddywed Pedr wrthym: “Os byddwn yn meddiannu y saith rhinwedd y mae ef yn eu nodi yn adnodau 5–7 – rhinwedd, gwybodaeth, hunan-ddisgyblaeth, dyfalbarhad, duwioldeb, brawdgarwch a chariad, yna ni fyddwn yn llithro na syrthio byth! Mae’n siŵr mai’r hyn fyddem yn ei ddeall o’r geiriau hyn yw nad ydym yn debygol o lithro na syrthio. Ond nid dyna ddywed yr apostol. Mae’n bendant. “Gwnewch y pethau hyn,” meddai, “ac ni fyddwch yn llithro.” Dyma’r warant sydd gennym.

Y tro cyntaf i mi ddarllen y geiriau yma meddyliais fod hyn yn dipyn o ddweud. Sut mae’n bosibl byw y bywyd Cristnogol heb faglu? Mae’n dibynnu, wrth gwrs, beth a olygwn wrth faglu. Nid wy’n tybied fod Pedr yn dweud: “Petawn yn meddiannu y saith rhinwedd yma, ni fyddaf byth yn syrthio i bechod eto.” Yn fy marn i, meddwl y mae am y bywyd Cristnogol yn nhermau gorymdeithio. Pan fyddwn yn ychwanegu at ein ffydd sylfaenol y saith rhinwedd mae’n eu nodi yma, yna ni fyddwn byth yn syrthio yn ein hymdrech, byth yn cael ein gadael ar ôl. Mi fyddwn yn parhau hyd ddiwedd y daith.

Heb y rhinweddau yma, fe ŵyr Pedr ein bod yn mynd yn fyr ein golwg a dall; yn fyr ein golwg oherwydd nad ydym ond yn gweld pethau fel y maent y funud hon, yn ddall, oherwydd na allwn weld y cam nesaf. Mae’n dweud hefyd fod y Cristion sydd yn methu â sylweddoli pwysigrwydd ychwanegu y rhinweddau hyn at ei ffydd yn arwyddo ei fod wedi anghofio y waredigaeth a gafodd oddi wrth bechod. Mae cof o’r hyn y mae Duw wedi ei wneud trosom wrth glirio ein dyled, y ddyled oedd yn ein herbyn (Rhufeiniaid 12:1–2) i fod yn sbardun inni symud ein bywyd ysbrydol yn ei flaen. Rhaid wrth symud ymlaen cyson ar y llwybr Cristnogol. Does neb i sefyll yn ei unfan. Yn wir, os nad ydym yn mynd ymlaen, rydym yn mynd yn ôl.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Ioan 2:1–29

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa gamau yn y bywyd Cristnogol mae Ioan yn eu nodi?
2. Sut mae’n bosibl inni osgoi cerdded yn y tywyllwch a baglu?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i beidio â bod yn un y gellir ei ddisgrifio fel person sydd wedi adnabod bywyd ac yna wedi baglu. Rwy’n hiraethu am gael symud ymlaen a symud i fyny. Caniatâ hyn, yn enw Iesu. Amen.